

Cyflwyniad

Dadleuodd Bronfenbrenner fod perthnasau rhwng yr ysgol a rhieni yn bwysig i ddadblygiad plant. Creodd y ‘Ecological Systems Theory’ le mae cysylltiadau rhwng yr ‘microsystem’ sef rheini, brodydd a chwiorydd a staff ysgol ac yr ‘mesosystem’ sef disgyblion arall ac yr ‘exosystem’ sef y gymuned leol (Bronfenbrenner yn The Psychology Notes Headquarters, 2019). Credodd Bronffenbrenner fod y gwahanol systemau yn cael effaith uniongyrchol ar y plentyn (Bronfenbrenner yn The Psychology Notes Headquarters, 2019). Dadleuodd fod y systemau hyn yn cydgysylltu ac na ellir eu gwahanu'n hawdd (Bronfenbrenner yn The Psychology Notes Headquarters, 2019). Mae'r gymuned ehangach, y rhieni a'r ysgolion i gyd yn cael effeithio'n uniongyrchol ar y profiadau yr plant. Felly bydd y poster hwn yn canolbwyntio ar y gwahanol bynciau sy'n cael effaith uniongyrchol ar brofiadau'r plant, sef yr ieithoedd maen nhw'n eu siarad a sefyllfa economaidd gymuned a yr ffordd mae'r ysgol lleoliad yn ceisio cydnabod a cofleidio.


Perthnasau gyda’r Gymuned

Nodau Austin fod “interaction with immediate environment is important for children’s emotional well-being and educational development” (Austin, 2007, tud. 23). Wrth gael y profiadau mae'r plant yn dod yn ymwybodol o'u cymuned, natur a diwylliant. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais ar wahanol fathau o feysydd dysgu, fel ymweld a'r maes cyfagos. Mae'r plant yn ymwybodol o'r gwahanol synhwyrâu maent yn teimlo a'r gwahanol anifeiliaid sy'n byw yn y maes hwnnw.

Iaith

Llawer o ddisgyblion yn yr ysgol lleoliad yn dod o gartrefi le maent yn siarad Saesneg. Gwelwch y tabl isod i weld faint o'r disgyblion sydd yn siarad Cymraeg gartref. Mae'r tabl yn dangos un dosbarth yn yr ysgol lleoliad. Mae'r tabl yn dangos fod mwyafrif o'r plant sydd yn dod i'r ysgol lleoliad yn dod o gartrefi sydd yn siarad Saesneg.

IAITH GARTREF O DDOSBARTH YN YR YSGOL LLEOLIAD



Mae'r ysgol lleoliad yn ymwybodol fod angen i'r plant fod mewn amgylchedd le maent yn clywed y Gymraeg yn cael i siarad yn gyson. Defnyddiwyd yr ysgol lleoliad sawl dull i annog y plant i siarad mwy o Gymraeg yn gynnwys y canlynol:

1.) Gwobrwyo'r plant pan maent yn siarad Cymraeg, er enghraifft rhoi sticeri pan maent yn siarad Cymraeg

2.) Gofyn i'r plant i siarad Cymraeg bob tro maen nhw'n siarad Saesneg

3.) Os mae'r plentyn dim yn deall defnyddio'r dull brechdan. Ail dweud y frawddeg neu air yn Gymraeg ac wedyn yn Saesneg

Gwelwyd fod manteision i fod yn rhugl yn y ddwy iaith, sef Cymraeg a Saesneg. Wnaeth Burton dweud yn erthygl ar-lein fod “language management calls upon executive functions such as attention control, cognitive inhibition, and working memory” (Burton, 2018). Felly, mae'r ffaith fod y disgyblion yn dysgu i siarad Cymraeg yn helpu eu sgiliau gwybyddol.

Dechrau wrth fy nhraed

Darllen

Credwyd yr ysgol lleoliad fod yn bwysig i blant dysgu gyda'i rhieni. Defnyddiwyd llyfrau cyswllt i gyfathrebu gyda rhieni amdano welliant eu plant. Rhoddir yr ysgol llyfrau i'r plant i fynd adref i'w darllen gyda'u rhieni. Mae rhieni yn ysgrifennu nodiadau yn y llyfr cyswllt ar gyfer yr athro/athrawes i ddweud sut mae eu plentyn yn datblygu neu ddim yn datblygu. Mae yn ffordd dda i'r ysgol gwybod os oes angen mwy o gymorth ar y plentyn. Mae'r llyfr cyswllt yn ffordd i'r athrawes a'r rhiant fod yn cyfathrebu'n gyson am ddatblygiad y plentyn. Mae'r dull hwn wedi cael ei chefnogi gan y ‘Education Endowment Foundation’, maent yn cydnabod eu bod yn anodd cael rhai rhieni i ymgysylltu ag addysg eu plant ac mae'r ‘shared book reading’ yn ffordd dda i gael rhieni i gymryd rhan yn y broses addysgu eu plant (Education Endowment Foundation, 2018, t. 6). Yn y prospectws yr ysgol lleoliad maent yn siarad amdano'r disgwyliadau ar y rhieni, yn gynnwys fod rhieni yn “gymeryd diddordeb gweithredol yng ngwaith [cartref]” (Ysgol Lleoliad, d.d.) Disgwyliwyd yr ysgol fod y rhieni yn cefnogi a hwyluso'r addysgu.

Ffydd

Yn yr ysgol lleoliad does dim amrywiaeth o wahanol grefydd, yr unig ffydd sydd yn yr ysgol yw Cristnogaeth. Ond rhoddir yr ysgol sylw ar ddysgu am wahanol grefyddau. Dysgon amdano'r canlynol:

1.) Cristnogion. Ymweld â Chapel ac Eglwys leol. Dysgon amdano'r gwahaniaeth.

2.) Iddewon. Ymweld â Synagog lleol.



Perthnasau gyda’r rhieni

Un o'r ffyrdd y mae fy ysgol leoliad yn ceisio ymgysylltu â rhieni a'r gymuned y disgyblion yw cynnal wythnos dathliadau unwaith neu ddwywaith y flwyddyn. Mae'r ysgol yn gwahodd rhieni i'r ysgolion i gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau gyda'u plant, fel paentio, crefftau a phobi. Mae'r gweithgareddau fel arfer yn cael eu cynnal ar ddydd Mercher, dydd Iau a dydd Gwener gyda sesiynau bore a phrynhawn. Mwyafrif o'r amser mae rhieni'n awyddus i gymryd rhan a mynychu sawl sesiwn.

Nod yr wythnos hon yw gwella'r berthynas rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae hefyd yn annog rhieni i ymddiddori yn addysg y plentyn. Nod yr ysgol yw bod mor gynhwysol â phosib ac mae'n caniatáu rieni i mam-gu a thad-cu / ffrindiau / brodyr a chwiorydd fod yn bresennol. Er bod yr ysgol leoliad yn ysgol Gymraeg maent yn annog rhieni sy'n siarad Saesneg i gymryd rhan yn y digwyddiad. Mae'r ysgol leoliad wedi sylwi bod y berthynas gyda'r rhieni wedi gwella o ganlyniad i'r wythnos dathliadau. Trwy'r wythnos mae'r plant yn wneud cysylltiadau gyda'r gymuned oherwydd fod rhaid i'r rheini gweithio gyda plant eraill hefyd. Un mantais yr wythnos yw i plant neud cystylliadau gyda phobl or gymuned.

Mae ysgol gynradd St Julian's yn esiampl arall o ysgol sydd yn rhoi pwyslais ar ei hymgysylltiad â rhieni a'r gymuned (Estyn, 2018). Maent yn cynnal digwyddiadau i ymgysylltu â rhieni fel gweithdai ar gyfer llythrennedd a rhifedd lle maent yn hysbysu'r rhieni sut y gallant ddysgu eu plant gartref (Estyn, 2018). Mae ganddyn nhw hefyd raglen 'lads and dads' lle maen nhw'n annog y berthynas rhwng tadau a'u meibion trwy wneud gweithgareddau, gan gynnwys coginio a chwaraeon (Estyn, 2018).

Er bod gwahaniaeth yn y gweithgareddau mae'r ysgolion yn wneud mae tebygrwydd rhwng yr ysgolion gan fod y ddau ohonyn nhw'n pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu â'r rhieni. Mae'r ddau hefyd yn ceisio cynnwys rhieni eu disgyblion mewn ffordd bleserus, fel cynnal digwyddiadau gwahanol. Yn y Cwricwlwm i Cymru mae angen athrawon ddysgu plant am wahanol berthnasau, fel mae'r ddwy ysgol yn ei wneud trwy cynnal y wahanol gweithgareddau hyn (Llywodraeth Cymru, 2020, t. 73). Byddai Vygotsky yn cefnogi'r dull yma o dysgu plant am y wahanol perthnasoedd teuluol gan iddo dadlau bod y teulu a'r gymuned yn cael effaith ar ddatblygiad plant. (Vygotsky yn Pound, 2006, tud. 40).

Y Gymuned Lleol

- ☐ Ardal dosbarth gweithiol
- ☐ Arfer fod yn dref lofaol
- ☐ Dim llawer o waith yn yr ardal
- ☐ 17.4% o'r plant yn yr ysgol lleoliad yn cael prydau bwyd am ddim (Llywodraeth Cymru, 2019)

Effaith tlodi

Mae tlodi yn broblem i'r plant a'r rhieni yn yr ardal ac ardraws Cymru. Dangoswyd yr ystadegau fod 29% o blant yn Gymru yn byw mewn tlodi (Stats Cymru, 2019). Ysgrifennwyd Weale yn y Guradian amdano'r effaith mae tlodi yn cael ar blant dros y Deyrnas Unedig (Weale, 2019). Yn yr erthygl disgrifiodd fod tlodi yn effeithio ar ymddygiad plant ac mae'r athrawon wedi sylwi fod plant yn dod i'r ysgol gyda phroblemau sydd wedi cael eu hachosi gan dlodi (Weale, 2019). Yn y Cwricwlwm i Gymru mae lles y plentyn yn cael eu pwysleisio trwy'r cwricwlwm gydag un o'r pedwar diben yn sôn am ‘unigolion iach’ (Llywodraeth Cymru, 2020, t. 11). Mae sawl anfantais i'r plant sydd yn byw mewn tlodi, er enghraifft dim môr gymaint o gyfleoedd i ymuno mewn clybiau tŷ allan o'r ysgol a llwgu. I leihau'r broblem o lwgi mai ysgolion yn Gymru yn cynnal clwb brecwasta hefyd mae prydau bwyd am ddim i blant sydd yn dod o deuluoedd le maen nhw yn cael cymorth o'r llywodraeth. Yn y ddogfen Cenhedloedd Unedig hawliau blant nodwy'n yn yr erthygl 27 fod hawl gan blant i gael safon byw dda a chyfrifoldeb y rhieni a'r wlad i sicrhau hyn (Save the Children, 1989).

Perthynas rhwng tlodi a gweithio'n agos gyda rhieni

Wnaeth y Joseph Rowntree Foundation darganfod fod cyswllt rhwng rhieni yn cael eu i ymglymu mewn i addysg eu plant a chyrhaeddiad ei phlant (Egan, 2013, t. 8). Nodwyd Egan yn ‘Poverty and low educational achievement in Wales’ fod rhoi gwybodaeth a chymorth i rheini yn cael effaith dda ar addysg plant sydd yn dod o deuluoedd tlawd (Egan, 2013, tud. 8). Felly, mae cael perthynas da gyda rhieni yn effeithio ar lwyddiant academig plant. Fel gwelwn o dan yr is-bennawd perthnasau gyda rhieni rhoddir ysgol lleoliad pwyslais ar greu perthynasai da gyda rheini eu disgyblion.

Cysylltiad rhwng tlodi a sgiliau llythrennedd is

Noda ‘save the children’ yn y ddogfen ‘ready to read’ fod cyswllt rhwng plant sydd yn byw mewn tlodi a sgiliau llythrennedd is (Save the Children, 2015, t. 3). Mae'r ystadegau o Lywodraeth Cymru yn dangos fod cyswllt rhwng sgiliau llythrennedd is a thlodi (Stats Cymru, 2019). Mae'r ystadegau yn dangos fod llai o blant sydd yn cael prydau bwyd am ddim yn ‘cyrraedd deilliant disgwyliedig’ (Stats Cymru, 2019). disgwyliedig.

Mae llywodraeth Cymru yn ymwybodol fod plant sydd yn byw yn tlodi yn fwy tebygol o gael sgiliau llythrennedd is ac wedi rhoi adnoddau i leihau'r broblem. Rhai o'r gwasanaethau yw dechrau'n deg, 30 awr yr wythnos o ofal plant am ddim a theuluoedd yn gyntaf. Defnyddiwyd yr ysgol lleoliad system monitro cynnydd i edrych ar ddatblygiad eu disgyblion ac yn enwedig yn edrych ar gynnydd y plant sydd yn dod o deuluoedd tlawd. Gan ddefnyddio'r system yma maen nhw allu gweld os oes angen sesiynau ychwanegol i'r plant. Hefyd, mae'r disgyblion sydd yn dod o deuluoedd tlawd yn cael sesiynau ychwanegol mewn grwpiau bach. Nid yw'r plant yn ymwybodol fod nhw'n cael sesiynau ychwanegol oherwydd bod hwn y cyfarwydd o gael i ddysgu mewn grwpiau bach bob dydd.

Rhestr cyfernod

Austin, R. (2007) *Letting the outside in: developing teaching and learning beyond the early years classroom*. Stoke-on-Trent: Trentham Books.

Burton, N. (2018) Beyond Words: The Benefits of Being Bilingual. *Psychology Today*. Ar gael ar: <https://www.psychologytoday.com/gb/blog/hidden-and-seeking/201807/beyond-words-the-benefits-being-bilingual> [Darllenwyd 10 Chwefror 2020].

Education Endowment Foundation. (2018) *Working with parents to support children’s learning*. Ar gael ar: https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/Publications/ParentalEngagement/EEF_Parental_Engagement_Guidance_Report.pdf [Darllenwyd: 2 Chwefror 2020].

Egan, D. (2013) *Poverty and Low Educational Achievement in Wales: Student, Family and Community Interventions* . Jrf.org.uk. Ar gael ar: <https://www.jrf.org.uk/sites/default/files/jrf/migrated/files/wales-education-poverty-summary.pdf> [Darllenwyd: 7 Chwefror 2020].

Estyn. (2018) *Cefnogi ymgysylltiad rhieni trwy weithdai*. Ar gael ar: https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/cefnogi-ymgysylltiad-rhieni-trwy-weithdai?_ga=2.12271412.1839314338.1580910339-89169403.1575483133 [Darllenwyd: 05 Chwefror 2020].

Llywodraeth Cymru (2019) *Mae’r rhan fwyaf o blant sydd mewn tlodi yn byw ar aelwydydd sy’n gweithio - adroddiad newydd*. Ar gael ar: <https://gov.wales/most-children-poverty-living-working-households-new-report> [Darllenwyd: 10 Chwefror 2020].

Llywodraeth Cymru (2019) *Ysgol Lleoliad*. Fy Ysgol Leol. Ar gael ar: <http://mylocalschool.gov.wales/School/6692003?lang=cy> [Darllenwyd: 10 Chwefror 2020].

Llywodraeth Cymru (2020) *Cwricwlwm i Gymru*. Hwb. Ar gael ar: <https://hwb.gov.wales/storage/b0e91f7c-0050-47b6-9b23-0273d39df9f3/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-070220.pdf> [Darllenwyd: 10 Chwefror 2020].

Pound, L. (2006) *How Children Learn*. Llundain: Practical Pre-School Books.

Save the Children. (1989) *A summary of the United Nations Convention of the Rights of the Child*. Ar gael ar: <https://www.savethechildren.org.uk/content/dam/gb/reports/humanitarian/uncrc19-summary2.pdf> [Darllenwyd: 9 Chwefror 2020].

Save the Children. (2015) *Ready to Read: Closing the gap in early language skills so that every child in Wales can read well*. Ar gael ar: <https://www.savethechildren.org.uk/content/dam/global/reports/education-and-child-protection/ready-to-read-wales.pdf> [Darllenwyd: 11 Chwefror 2020].

Stats Cymru. (2019) *Canlyniadau fesul hawl i Brydau Ysgol am Ddim a rhyw*. Ar gael ar: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Foundation-Phase/results-by-freeschoolmealentitlement-gender> [Darllenwyd: 11 Chwefror 2020].

Stats Cymru. (2019) *Canran yr holl unigolion, plant, oedolion oedran gweithio a phensiynwyr sy’n byw mewn tlodi incwm cymharol ar gyfer y DU, gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr rhwng 1994-95 i 1996-97 a 2015-16 i 2017-18 (cyfartaleddau 3 blynedd o blynnyddoedd ariannol)*. Ar gael ar: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Poverty/householdbelowaverageincome-by-year> [Darllenwyd: 10 Chwefror 2020].

The Psychology Notes Headquarters. (2019) *What is Bronfenbrenner’s Ecological Systems Theory? - The Psychology Notes Headquarters*. Ar gael ar: <https://www.psychologynoteshq.com/bronfenbrenner-ecological-theory/> [Darllenwyd: 02 Chwefror 2020].

Weale, S. (2019) Tired, hungry and shamed: pupil poverty ‘stops learning’. *The Guardian*. Ar gael ar: <https://www.theguardian.com/education/2019/apr/14/tired-hungry-shamed-pupil-poverty-stops-learning> [Darllenwyd 11 Chwefror 2020].

Ysgol Lleoliad. (d.d.) *Prospectws*. Ar gael ar: <http://llechyfedach.amdro.org.uk/cartref/gwybodaeth/prospectws/> [Darllenwyd: 7 Chwefror 2020].